



Mynychwyr:

Ann Evans, Philip Blaker, Isabel Nisbet, Claire Morgan (eitemau 1-7), Angela Maguire-Lewis, Caroline Burt, Robert Lloyd Griffiths, Ellen Donovan, Rheon Tomos, Alun Llwyd.

Yn Bresennol:

Alison Standfast, Kate Crabtree, Jo Richards, Alison Rees (eitemau 1-9, sylwedydd Llywodraeth Cymru), Helen Bushell (Ysgrifenyddiaeth), Kerry Price (yn bresennol ar gyfer eitem 8 a 9).

Ymddiheuriadau:

Dim

1. Croeso, Ymddiheuriadau, Datganiadau o Fuddiant

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd y câi eitem 5 ei gohirio i gyfarfod hwyrach gan nad oedd ein gwestai yn gallu mynychu'r cyfarfod.
- 1.2. Nododd y Cadeirydd fod y Bwrdd wedi derbyn papurau gwybodaeth am y tro cyntaf ac mai'r bwriad oedd y byddai'r rhain yn nodwedd gyffredin yn y dyfodol. Pe byddai aelod o'r Bwrdd am godi unrhyw faterion sy'n codi o'r papurau gwybodaeth, yna câi'r rhain eu croesawu a'u cynnwys yn yr agenda. Nododd y Cadeirydd fod Cynllun Gweithredu'r Bwrdd yn un o'r papurau gwybodaeth, a ddarparwyd ar ei ffurf bresennol i aelodau'r bwrdd.
- 1.3. Ceisiwyd datganiadau o fuddiant. Nododd ED, fel rhan o'i rôl Anweithredol gyda Llywodraeth Cymru (datganwyd eisoes), y byddai'n rhan o ddarn o waith sy'n ystyried y berthynas lywodraethu rhwng Llywodraeth Cymru a chyrrff a noddir. Nododd y Cadeirydd y datganiad.

2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2017 a'r Camau Gweithredu sy'n Codi

- 2.1. Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2017 yn gofnod cywir o'r cyfarfod yn amodol ar rai mân newidiadau, a chytunodd y Bwrdd arnynt. Câi'r cofnodion eu cyhoeddi ar wefan Cymwysterau Cymru ar ôl eu cyfieithu. Gofynnwyd i'r Bwrdd anfon unrhyw ddiwygiadau teipograffyddol at HB drwy e-bost.
- 2.2. Bwridd y Bwrdd olwg dros y cofnod o gamau gweithredu a oedd wedi'i ddiweddarau i gynnwys cynnydd. Hysbysodd y Cadeirydd y Bwrdd iddo gael ymateb i'w llythyr am yr amgylchedd ariannol gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar. Cadarnhaodd PB fod y llythyr yn ymateb cadarnhaol ac, ar ôl gwirio rhai manylion penodol yn fewnol, câi ei rhannu â'r Bwrdd.
- 2.3. Cynhaliwyd trafodaeth am brotocolau ynglŷn â chyhoeddi gohebiaeth, cadarnhaodd PB na wnaed penderfyniad ar gyhoeddi'r holl ohebiaeth â

Llywodraeth Cymru, ond gwnaed penderfyniad fesul achos. Yn dilyn y drafodaeth, cytunodd y Cadeirydd i drafod a ddylid cyhoeddi'r llythyrau penodol hyn ymhellach â Swyddogion perthnasol yn Llywodraeth Cymru er mwyn gwneud penderfyniad terfynol ar y llythyrau ac i ystyried protocolau ar gyfer y dyfodol.

- 2.4. Materion yn codi - Hysbysodd y Cadeirydd y Bwrdd fod y cyfarfod ag Alun Davies AS wedi'i ohirio ar gais y Gweinidog ac wedi'i aildrefnu'n ddiweddarach ym mis Mawrth.
- 2.5. Nododd aelodau'r Bwrdd fod PB wedi rhoi cyflwyniad yn y Gynhadledd Genedlaethol i Benaethiaid yn ddiweddar, a bu rhai o aelodau'r Bwrdd yn bresennol. Soniwyd am Cymwysterau Cymru mewn modd cadarnhaol sawl gwaith yn y Gynhadledd, a nododd y Bwrdd fod hwn yn gynnydd cadarnhaol o ran cadarnhau rôl y sefydliad yn y dirwedd addysgol ehangach.

3. Y diweddaraf gan y Cadeirydd

- 3.1. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei bod wedi cwblhau'r cylch o gyfarfodydd un i un ag Aelodau'r Bwrdd. Cafodd y rhain eu cofnodi a byddent yn ffurfio rhan o'r archwiliad iechyd llywodraethu.
- 3.2. Ymwelodd y Cadeirydd â dau randdeiliad sef, coleg Addysg Bellach a choleg anghenion arbennig. Roedd y ddau ymweliad yn gadarnhaol iawn a rhannwyd adborth â staff perthnasol yn Cymwysterau Cymru.
- 3.3. Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Bwrdd am fod yn bresennol yn y diwrnodau hyfforddi diweddar ar Gydraddoldeb/Amrywiaeth a'r Gymraeg yn y Gweithle. Cyrhaeddwyd y targed o 100% o bresenoldeb ar gyfer sesiynau hyfforddi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a bu'r rhan fwyaf o aelodau'r Bwrdd yn bresennol yn sesiynau hyfforddi'r Gymraeg yn y Gweithle. Nododd y Bwrdd werth mynychu'r sesiynau ochr yn ochr ag aelodau o staff.
- 3.4. Roedd y broses o recriwtio aelodau i'r bwrdd eisoes yn mynd rhagddi a thros yr wythnosau nesaf, roedd y panel yn gobeithio argymhell penodiadau ar gyfer swydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg. Roedd Cadeirydd y Bwrdd hefyd yn Gadeirydd y panel recriwtio.
- 3.5. Nododd y Cadeirydd y byddai'n gofyn i'r holl fynychwyr roi sylwadau, yn eu barn nhw, ar y gwerth a ychwanegwyd at Cymwysterau Cymru a gwaith y sefydliad gan gyfarfod y Bwrdd. Byddai hyn yn disodli'r dull o roi adborth ar nodiadau *post-it* a gynhaliwyd mewn cyfarfodydd diweddar.

4. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

- 4.1. Cyflwynodd Philip Blaker (PB) ei bapur gan nodi bod sawl maes wedi'i gynnwys er gwybodaeth, ac i dynnu sylw at rai meysydd penodol i'w diweddarau a'u trafod:

Cymeradwyaethau Cymwysterau Cyffredinol 2017

- 4.2. Nododd Jo Richards (JR) fod cynnydd pellach wedi'i wneud ers y diweddariad diwethaf i'r Bwrdd mewn perthynas â chymeradwyo cymwysterau i'w haddysgu ym mis Medi 2017. Mae'r maes gwaith hwn yn cael ei reoli'n rhagweithiol ac roedd JR yn hyderus y câi'r amserlen gyhoeddedig ei chyflawni.
- 4.3. Nododd PB y byddai'n ysgrifennu at CYDAG er mwyn cadarnhau dealltwriaeth y sefydliad o'r sefyllfa mewn perthynas ag adnoddau dysgu ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymgyrch Cyfathrebu A* - G

- 4.4. Rhoddodd PB y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgyrch cyfathrebu arfaethedig i hysbysu rhanddeiliaid am y newidiadau i gymwysterau TGAU, a fyddai'n dod i rym ddechrau mis Ebrill. Byddai'r ymgyrch yn cynnwys sesiynau briffio'r cyfryngau ac anfon gwybodaeth hyrwyddo i ysgolion yng Nghymru yn uniongyrchol.
- 4.5. Gofynnodd y Bwrdd sut roedd wybodaeth yn cael ei rhannu â rhieni a nododd PB fod sawl dull gweithredu/cynllun ar waith er mwyn targedu ysgolion, dysgwyr, rhieni a'r cyfryngau.
- 4.6. Holodd y Bwrdd am y sefyllfa ddiweddaraf o ran cymwysterau TGAU a Safon Uwch a oedd wedi'u diwygio yn Lloegr lle mae niferoedd bach o ymgeiswyr ac a fyddai'n cael eu dynodi yng Nghymru. Cadarnhaodd PB fod JR yng nghanol trafodaethau agos ag Ofqual er mwyn cytuno ar rolau rheoleiddiol ar gyfer y cymwysterau hyn mewn materion megis cwynion a chynnal safonau. Roedd trafodaethau yn gynhyrchiol ac yn gydweithredol hyd yn hyn.
- 4.7. Cynhaliwyd trafodaethau pellach ag AQA sydd bellach wedi cytuno i gynig cymwysterau TGAU a Safon Uwch yng Nghymru lle mae niferoedd bach o ymgeiswyr. Cadarnhaodd PB fod Comisiynydd y Gymraeg yn ymwybodol o'n dull gweithredu cyffredinol ac yn deall y sefyllfa.

Cam Gweithredu: HB i rannu gwybodaeth yr ymgyrch A* - G ag aelodau'r BwrddProsiect Data

- 4.8. Hysbysodd PB y Bwrdd fod y prosiect ar y cam cwmpasu ac yn datblygu'n dda. Sefydlwyd grŵp llywio er mwyn helpu i ddatblygu'r cam cwmpasu. Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi bod Ofqual yn bwriadu codi tâl am wasanaethau data a oedd yn cael eu darparu yn rhad ac am ddim yn flaenorol. Cafodd amserlenni cychwynnol ar gyfer camau cyflawni'r prosiect eu cynnwys yn adroddiad ysgrifenedig y Prif Swyddog Gweithredol.

Datblygiadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- 4.9. Cadarnhaodd PB fod y gwahoddiad i gyflwyno datrysiadau ar-lein wedi'i gyhoeddi ar 8 Mawrth a bod y broses gaffael yn mynd rhagddi'n dda. Byddai cynigion amlinellol gan gyrrff dyfarnu yn cael eu cyflwyno erbyn diwedd mis Mawrth.
- 4.10. Roedd y gwaith o ddatblygu cynnwys drafft yn mynd rhagddo'n dda ac yn ôl y bwriad. Cynhaliwyd cyfarfod grŵp cynghori ar 8 Mawrth a oedd yn cynnwys Coleg Castell-nedd Port Talbot, Llywodraeth Cymru, NTFW (Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru), cynrychiolwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch, Estyn, cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaethau a thri arbenigwr pwnc. Roedd y GIG a Chyngor Gofal Cymru hefyd wedi dechrau ar y gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gynnwys drafft.
- 4.11. Nododd PB i'r sesiynau datblygiad proffesiynol ar gyfer aseswyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol gael eu croesawu, a bod trafodaethau mewnol yn mynd rhagddynt er mwyn ystyried y camau nesaf ar gyfer y maes gwaith hwn.
- 4.12. Nododd y Bwrdd yr adroddiad diweddar a chododd ymholiadau penodol mewn perthynas â'r broses gaffael.

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Cyngor Gofal Cymru

- 4.13. Hysbysodd PB y Bwrdd bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wrthi'n cael ei datblygu â Cyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru o 1 Ebrill 2017) ac er nad yw cwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn flaenoriaeth frys, roedd yn bwysig ac roedd angen ei wneud. Gobeithiwyd y gellid cyflwyno fersiwn y cytunwyd arno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Mai 2017.

Diweddariad ar y Cynllun Gweithredol

- 4.14. Cyfeiriodd PB at ei adroddiad ysgrifenedig gan ychwanegu bod yr adroddiad diweddar hefyd wedi'i ystyried gan y Pwyllgor Adnoddau. Er gwybodaeth, gofynnwyd i'r Bwrdd nodi bod y problemau sy'n gysylltiedig â rhyngwyneb technegol rhwng y gyflogres a systemau data pensiwn yn agos at gael eu datrys a disgwylir y byddai cyfriflenni buddiannau pensiwn ar gael gan MySCP yn y dyfodol agos. Hysbysodd PB y Bwrdd hefyd fod cangen Undeb Llafur Cymwysterau Cymru bellach wedi'i sefydlu.

Cynllun Sgiliau a Phrentisiaethau

- 4.15. Rhoddodd PB y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y ddealltwriaeth ddiweddaraf o'r ffordd yr oedd y broses o roi'r Cynllun Sgiliau ar waith yn datblygu yn Lloegr. Cafwyd ar ddeall mai bwriad presennol yr Adran Addysg oedd sefydlu cymwysterau newydd ar gyfer pob un o'r 15 sector erbyn 2020, gan gyflwyno'r cymwysterau newydd i rai sectorau yn gyntaf mor gynnar â mis Medi 2019. Cynhelir trafodaethau â'r Adran Addysg yn San Steffan a nodwyd yr hyn sy'n debyg i'n gwaith ar gyfyngu a chomisiynu. Cynigodd Cymwysterau Cymru rannu dysgu â'r Adran Addysg.

- 4.16. Cynhaliwyd trafodaeth ar effeithiau posibl y polisi prentisiaeth yn Lloegr a'r Cynllun Sgiliau ar yr amrywiaeth o gymwysterau a fyddai ar gael yng Nghymru. Croesawodd y Bwrdd y syniad o greu gweithgor mewnol i ddeall ac ystyried y materion hyn ymhellach. Cododd y Bwrdd sawl pwynt yn gysylltiedig â chyflenwi cymwysterau i Gymru, gan nodi maint cymharol y farchnad yng Nghymru a defnydd o'r gronfa lefi yn y gwledydd datganoledig. Trafodwyd y materion hyn.

Cam gweithredu - KC i drefnu nodyn briffio ar gyfer y Bwrdd yn gysylltiedig â phrentisiaethau a'r Cynllun Sgiliau.

Crynodeb o'r Argymhellion

- I. Nodi adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol - NODWYD

5. Cyflwyniad / trafodaeth â CCEA

- 5.1 Fel y cyfeirir ato ym mharagraff 1.1, cafodd yr eitem hon ei gohirio tan gyfarfod yn y dyfodol.

6. Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â CCEA

- 6.1. Cyflwynodd Kate Crabtree (KC) y papur yn cynnwys y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a chadarnhaodd fod y ddogfen yn debyg iawn i'r cytundeb y cytunwyd arno eisoes ag Ofqual.
- 6.2. Nododd KC nad oedd y ddogfen yn gyfrwymol yn gyfreithiol, ond ei bod yn rhoi neges gadarnhaol i randdeiliaid ac i staff y sefydliadau. Roedd angen i'r Bwrdd gymeradwyo'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, ac yna byddai'n cael ei lofnodi gan Brif Weithredwyr y ddau sefydliad.
- 6.3. Trafododd y Bwrdd y papur a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a gofynnwyd a ddylid cyfeirio at y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd a/neu Fframwaith Cymwysterau y DU yn y ddogfen. Yn dilyn y drafodaeth, cytunwyd nad oedd angen gwneud hwn, yn bennaf er mwyn sicrhau cysondeb â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sydd ar waith gydag Ofqual.
- 6.4. Gofynnodd y Bwrdd hefyd a ddylid ychwanegu pwynt sy'n berthnasol i gymwysterau dwyieithog (Gwyddeleg) ac a allai Cymwysterau Cymru gynnig rhywfaint o brofiad neu ddysgu o'i waith yng Nghymru. Cytunodd y Bwrdd y byddai'n briodol cynnwys hynny, gan gytuno y dylai KC ystyried y mater a'i drafod â CCEA, ond na fyddai angen i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ddychwelyd i'r Bwrdd i'w ystyried ymhellach.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

- I. Gofynnwyd i'r Bwrdd adolygu a chymeradwyo'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth - CYMERADWYWYD

5.

6.

7. Canlyniadau Rheoleiddio

- 7.1 Cyflwynodd KC y papur i'r Bwrdd gan geisio cymeradwyaeth i ddechrau ar y gwaith o ymgynghori ar y canlyniadau rheoleiddio arfaethedig. Ar 30 Ionawr 2017, cyfarfu'r Pwyllgor Rheoleiddio i drafod y dull gweithredu arfaethedig, a gafodd ei lywio gan waith Economic Insight, ac i ystyried yr allbynnau o Gam 2 o'r Prosiect Strategaeth Rheoleiddio. Gwnaeth y Pwyllgor Rheoleiddio hefyd ystyried canlyniadau rheoleiddio drafft ar 27 Chwefror 2017. Cafodd eu diwygiadau eu cynnwys a chafodd y canlyniadau rheoleiddio arfaethedig eu hargymell i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.
- 7.2 Esboniodd KC nad oedd Cymwysterau Cymru yn cynnig rheoleiddio drwy ganlyniadau ac felly nad oedd i'r canlyniadau arfaethedig unrhyw statws cyfreithiol. Roedd dibenion y canlyniadau rheoleiddio fel a ganlyn:
- Darparu datganiadau canlyniadau tryloyw cyhoeddus i Cymwysterau Cymru ac felly ennyn hyder y cyhoedd
 - Pennu'r hyn y mae Cymwysterau Cymru yn bwriadu ei gyflawni (nid y broses a ddefnyddir i'w gyflawni)
 - Canolbwyntio gwaith rheoleiddio ar gyflawni amcanion i ddysgwyr
 - Llywio gwaith cynllunio busnes, gwneud penderfyniadau a chyfathrebu rheoleiddiol fel y bo'n briodol
 - Llywio'r Amodau Cydnabod Safonol (drwy amlinellu'r hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni yn erbyn yr Amodau)
- 7.3 Rhoddodd KC drosolwg o'r camau nesaf a'r broses ddatblygu fel y'i hamlinellwyd yn y papur. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio fod y Pwyllgor wedi bod yn rhan o'r gwaith hwn ac wedi gweld y datblygiad hyd yn hyn. Un prif bwynt a ddeilliodd o'r trafodaethau oedd pa mor bwysig oedd bod Cymwysterau Cymru yn dwyn ei hun i gyfrif yn erbyn canlyniadau perthnasol yn ogystal â Chyrff Dyfarnu.
- 7.4 Amlinellodd PB rai o'r datblygiadau diweddar yn y Tîm Gweithredol sy'n berthnasol i'r broses o ddatblygu'r dull cynlluniau strategol a fyddai'n cael ei ystyried yn sesiwn hirach y Bwrdd ym mis Mai. Roedd y canlyniadau rheoleiddio yn ffurfio rhan o'r darlun strategol sy'n esblygu.
- 7.5 Trafododd y Bwrdd y canlyniadau a'r ffyrdd y gellid defnyddio'r canlyniadau fel rhan o'n gwaith cynllunio a monitro perfformiad ein hunain. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd gwestiynau hefyd am flaenoriaethau canlyniadau.
- 7.6 Gwnaeth y Cadeirydd grynhoi'r drafodaeth drwy ddiolch i dîm y staff a'r Pwyllgor Rheoleiddio am eu gwaith yn y maes hwn a nodi'r ddadl, sydd i'w chrosawu, ar y newidiadau i'n dull gweithredu o ran strategaeth a blaengynllunio. Nododd y

gallai'r canlyniadau fod yn ddefnyddiol iawn i sefydliad a byddai'r Bwrdd yn edrych ymlaen at weld crynodeb o'r adborth ymgynghori ac ymgysylltu.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

- I. Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r canlyniadau rheoleiddio ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori dilynol - CYMERADWYWYD

8. Cynllun Busnes 2017/18

Blaenoriaethau gweithredol a'r cynllun busnes

- 8.1. Rhoddodd Alison Standfast (AS) gyflwyniad byr i eitem yr agenda gan esbonio y byddai Helen Bushell (HB) yn cyflwyno cynigion y cynllun busnes a blaenoriaethau gweithredol ac y byddai Katie Price (KP) yn cyflwyno'r gyllideb ar gyfer 2017/18. Gwnaeth AS hefyd gadarnhau bod y Pwyllgor Adnoddau wedi adolygu'r blaenoriaethau gweithredol a chynigion y gyllideb yn fanwl ar ddiwedd mis Chwefror.
- 8.2. Cyflwynodd HB y papur gan amlinellu bod y prif ddogfennau cynllunio ar gyfer 2017/18 fel a ganlyn:
 - I. Y cynllun busnes (allanol) - y ddogfen a gyhoeddwyd (a chynnwys ar y we ar-lein) yn amlinellu ein hamcanion, ein blaenoriaethau a'n hadnoddau strategol
 - II. Y cynllun gweithredol (mewnol) - yr adnodd a ddefnyddir i gynllunio yn erbyn ein blaenoriaethau gweithredol a'u monitro
 - III. Cynllun ariannol tymor canolig
- 8.3. Rhoddodd HB drosolwg o'r pum blaenoriaeth weithredol a gynigir ar gyfer y flwyddyn 2017/18 fel a ganlyn a rhoddodd drosolwg o gynnwys y meysydd ym mhob blaenoriaeth:
 - Darparu'r agweddau ar ein gwaith sy'n ymwneud â Chymwysterau Cyffredinol
 - Darparu'r agweddau ar ein gwaith sy'n ymwneud â Chymwysterau Galwedigaethol
 - Darparu'r agweddau rheoleiddiol craidd ar ein gwaith
 - Ymgysylltu â'r system gymwysterau yng Nghymru a'i chefnogi
 - Parhau i ddatblygu ein galluoedd a'n hadnoddau corfforaethol
- 8.4. Cyflwynodd HB y trosolwg o'r cynllun busnes amlinellol ar gyfer 2017/18 gan drafod cynnwys a dull gweithredu arfaethedig y ddogfen a fyddai'n cael ei chyhoeddi.
- 8.5. Trafododd aelodau'r Bwrdd elfennau perthnasol y papur yn ogystal ag ymholiadau penodol gan gynnwys agweddau ar flaenoriaeth Cymwysterau Galwedigaethol, archwiliadau o gyrff dyfarnu a chanlyniadau rheoleiddio. Trafododd y Bwrdd yr

angen i fyfyrto ar yr amgylchedd presennol yn y cynllun busnes a'r hyn a all effeithio ar ein dyfodol. Cadarnhaodd y Bwrdd hefyd fod y cynllun busnes wedi'i lunio ar y sail na fyddai unrhyw newid i'r awydd gwleidyddol i hyrwyddo swyddogaeth ddyfarnu yn y sefydliad yn y flwyddyn ariannol 2017/2018.

- 8.6. Yn dilyn y drafodaeth, gofynnodd y Bwrdd i staff ystyried sut y gellid integreiddio canlyniadau rheoleiddio â'n blaenoriaethau gweithredol yn y blynyddoedd i ddod.

Cam Gweithredu: KC/HB i ailystyried geiriad blaenoriaeth weithredol 3.1 (fframwaith rheoleiddio a dull gweithredu)

Cam Gweithredu: HB i lunio adran am yr amgylchedd presennol i'w chynnwys yn y Cynllun Busnes a'i rhannu a'r Bwrdd i'w hadolygu

Cam Gweithredu: HB i drefnu nodyn briffio am y dull o fonitro Cymwysterau Galwedigaethol

Cyllideb 2017/18

- 8.7. Cyflwynodd KP yr elfennau ariannol o'r papur. Ar gyfer 2017/18 roedd cyllideb o £8.2 miliwn ar gael a oedd yn cynnwys y dyraniad grant a gadarnhawyd gan Lywodraeth Cymru yn ogystal â'r hyn y cytunwyd i'w gario ymlaen ar gyfer y prosiect data dysgwyr a'r rhaglen adnewyddu TGCh.
- 8.8. Disgrifiodd KP y broses o ddatblygu cyllideb a ddefnyddir â deiliaid cyllidebau, gan gynnwys y ffordd y cafodd y gyllideb ar gyfer 17/18 ei datblygu ar y cyd â blaenoriaethau gweithredol a gweithgareddau a gynlluniwyd.
- 8.9. Gwnaeth KP hefyd grynhai'r newidiadau i ddyraniadau cyllidebol rhwng 2016/17 a 2017/18. Gofynnodd y Bwrdd pam y cafodd y gymhariaeth hon ei darparu ac nid cymhariaeth o wariant gwirioneddol 2016/17 â dyraniad cyllideb 2017/18. Cadarnhaodd KP fod y gymhariaeth a ddarparwyd yn fwy ystyrlon o ystyried nifer y newidiadau sylfaenol a datblygiad y gyllideb ym mhob rhan o Cymwysterau Cymru ar gyfer y flwyddyn gyntaf o weithredu.
- 8.10. Gofynnodd y Bwrdd a oedd costau chwyddiantol wedi'u cynnwys yn rhagolygon cyllideb 2018/19 a 2019/20. Cadarnhaodd KP fod chwyddiant wedi'i gynnwys yn y bil cyflog a rhai contractau a gawsant eu hadnewyddu.
- 8.11. Gwnaeth KP amlinellu'r ffordd y byddai'r Bwrdd Rheoli yn monitro gwariant y gyllideb yn 17/18 a sut y câi Cronfa Wrth Gefn y Swyddog Cyfrifyddu ei defnyddio mewn meysydd lle na ellir rhagweld gwariant. Yn benodol, y caiff gwariannau hysbys eu rheoli o fewn cyllidebau penodol, ond bydd gwariannau llai rhagweladwy yn aros yng Nghronfa Wrth Gefn y Swyddog Cyfrifyddu tan fod penderfyniad achos busnes neu wariant wedi'i gymeradwyo er mwyn sicrhau mwy o welededd o ran cyllideb nad yw wedi'i dyrannu.

- 8.12. Diolchodd y Bwrdd i KP am y papur gan wneud sylwadau ar ba mor glir oedd y wybodaeth a ddarparwyd. Gofynnodd y Bwrdd pryd y byddai'r Bwrdd yn ymgymryd â'r adolygiad cyntaf o'r gyllideb yn ystod y flwyddyn. Cytunwyd y câi hwn ei gynnal ar ôl chwe mis ac y byddai'n eitem ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Hydref 2017.
- 8.13. Gwnaeth y Bwrdd hefyd holi ynglŷn â'r cynllun rhagolygon ar gyfer y tymor canolig i leihau Cronfa Wrth Gefn y Swyddog Cyfrifyddu i sero gan gynghori y dylid ailystyried hwn er mwyn sicrhau bod y sefydliad wedi cyllidebu'n briodol ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn hysbys. Cadarnhaodd KP ei bod yn fwriad bellach i osgoi defnyddio Cronfa Wrth Gefn y Swyddog Cyfrifyddu ac y byddai'r ffigurau yn cael eu hadolygu yn ystod 2017/18 pan gaiff y cynllun tymor canolig ei ailystyried. Cadarnhaodd KP ei bod yn ddoeth parhau i ddal rhywfaint wrth gefn bob blwyddyn er mwyn galluogi'r sefydliad i ymateb i ddigwyddiadau annisgwyl ac y byddai'n rhaid cynnwys yr egwyddor hon yn y gwaith er mwyn adolygu a diweddarau'r cynllun ariannol ar gyfer y tymor canolig yn 2017/18. Gallai hyn arwain at naill ai parhau â Chronfa Gefn y Swyddog Cyfrifyddu, neu gydnabod meysydd y gyllideb lle gellid rhyddhau/trosglwyddo cyllid ar gyfer digwyddiad annisgwyl / newid i gynlluniau.

Staffio

- 8.14. Cyfeiriodd AS at gais blaenorol y Bwrdd i ystyried p'un a yw lefelau staffio yn briodol wrth i'r sefydliad symud ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Adolygwyd lefelau staffio ym mhob tîm a daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad bod angen swydd ychwanegol yn y tîm Cymwysterau Cyffredinol er mwyn helpu i reoli'r llwyth gwaith yn y tîm hwnnw. Mae hwn wedi'i gynnwys yn y dyraniad cyllideb arfaethedig.
- 8.15. Cadarnhaodd AS fod y Bwrdd Rheoli wedi ystyried yr angen hwn yn fanwl ac wedi treulio amser yn trafod pa lefel a math o swydd fyddai'n fwyaf priodol. Gwnaeth y Bwrdd Rheoli argymhell y dylid sefydlu swydd ar lefel Swyddog Cymwysterau ar sail barhaol. Ychwanegodd PB fod y sefydliad yn disgwyl cynnydd yn niferoedd staffio yn y ddwy flynedd nesaf ac y byddai pob swydd wag yn cael ei hadolygu cyn gwneud unrhyw benderfyniadau recriwtio.
- 8.16. Trafododd y Bwrdd y cynnig a gwnaeth gymeradwyo'r cynnydd yn nifer y staff i 81.
- 8.17. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau fod yr eitemau a drafodwyd wedi'u hystyried yn fanwl gan y Pwyllgor Adnoddau ar 16 Chwefror a bod y pwyntiau a godwyd o'r pwyllgor wedi'u hystyried yn y papurau a gyflwynwyd i'r Bwrdd.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r canlynol:

- I. Blaenoriaethau gweithredol ar gyfer 2017/18 - CYMERADWYWYD
- II. Y gyllideb ar gyfer 2017/18 - CYMERADWYWYD

- III. Swydd ychwanegol ar gyfer y tîm Cymwysterau Cyffredinol - CYMERADWYWYD
- IV. Dirprwyo fersiwn derfynol o'r Cynllun Busnes (2107/18) i'r Bwrdd Rheoli - CYMERADWYWYD ar y sail y bydd y Bwrdd yn adolygu'r adran sy'n rhoi cyd-destun ar ôl iddi gael ei hysgrifennu

9. Adroddiad Ariannol 2016/17

- 9.1. Cyflwynodd KP y papur yn cadarnhau bod yr adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod a ddaeth i ben ym mis Chwefror 2017. Cafodd papur manwl ei ystyried gan y Pwyllgor Adnoddau ar 16 Chwefror a chan y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 15 Chwefror 2017.
- 9.2. Cafodd prif symudiadau i ragolygon y gyllideb eu hadlewyrchu yn y papur a'u trafod gan y Bwrdd. Gofynnodd y Bwrdd a ellid disgwyl yr un lefel o wariant ym mis Mawrth ar gyfer y flwyddyn 2017/18. Cadarnhaodd KP na ddylai y hynny ddigwydd, ond nodwyd mewn rhai meysydd, er enghraifft grantiau, y byddai gwariant yn wahanol tua diwedd y flwyddyn ariannol. Gofynnodd y Bwrdd i Kerry rannu gwybodaeth am y proffil gwariant misol a gynlluniwyd maes o law.
- 9.3. Diolchodd y Bwrdd i KP am y wybodaeth ddiweddaraf a chadarnhaodd fod y papur a'r rhagolygon ariannol alldro wedi'u nodi.

Cam Gweithredu: KP i roi gwybodaeth i'r Bwrdd am y proffil gwariant misol a gynlluniwyd ar gyfer 2017/18 maes o law

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

- I. Gofynnwyd i'r Bwrdd adolygu a nodi'r rhagolygon alldro diweddaraf - NODWYD.

Cynhaliwyd sesiwn gaeedig o'r Bwrdd rhwng 14.15 a 15.15.

10. Adroddiad y Pwyllgor Rheoleiddio (30 Ionawr a 27 Chwefror)

- 10.1. Cyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor at gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2017 a ddarparwyd, a chadarnhaodd nad oedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2017 ar gael eto am fod cyfarfod y Pwyllgor a chyfarfod y Bwrdd mor agos i'w gilydd. Cafodd y rhan fwyaf o'r prif faterion o'r Pwyllgor eu trafod yn ystod cyfarfod y Bwrdd neu yng nghofnodion y Pwyllgor. Ychwanegodd Cadeirydd y Pwyllgor fod y Pwyllgor wedi trafod risg rheoleiddio ac wedi cydnabod ei bod yn debygol y bydd cyfres arholiadau'r Haf, pan fydd y cymwysterau newydd a diwygiedig yn mynd yn fyw, yn heriol - mae cynlluniau perthnasol a phriodol ar waith ar gyfer hwn.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

- I. Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi adroddiad y Pwyllgor fel y'i cyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor - NODWYD

11. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg (15 Chwefror 2017)

11.1. Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y prif feysydd busnes ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Nid oedd y cofnodion ar gael eto am fod cyfarfod y Pwyllgor a chyfarfod y Bwrdd mor agos i'w gilydd. Roedd y wybodaeth ddiweddaraf fel a ganlyn:

- Cyflwynodd KPMG (archwilwyr mewnol) ei adroddiad cynnydd ar gyfer 2016/17 a chadarnhaodd fod popeth yn ôl y disgwyl. Cafodd cynllun drafft 2017/18 ei ystyried a chaiff ei gadarnhau gan y Bwrdd Rheoli ac yna ei gyflwyno yn ôl i'r Pwyllgor ym mis Mehefin.
- Roedd yr archwiliad mewnol o Gaffael wedi ennill gradd sicrwydd boddhaol. Disgwylid cyflwyno adroddiadau'r archwiliad o Grantiau a'r archwiliad o'r 'system Ariannol Rheolaethau Mynediad TGCh Cyffredinol' yn y cyfarfod nesaf
- Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyflwyno ei gynllun archwilio allanol
- Cynhaliwyd sesiwn plymio dwfn o ran risgiau ar gyfer safonau'r Gymraeg a chanfu fod risgiau perthnasol wedi'u nodi a bod cynlluniau a rheolaethau ar waith
- Cafodd y polisi Twyll ei lunio a'i adolygu gan y Pwyllgor
- Yn y dyfodol, byddai adroddiadau sefydlog ar chwythu'r chwiban a thwyll ar waith
- Cyflwynwyd papur diogelwch gwybodaeth a rhoddwyd sicrwydd perthnasol
- Cynhaliwyd yr archwiliad iechyd Llywodraethu

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

- I. Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi adroddiad y Pwyllgor fel y'i cyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor - NODWYD

12. Adroddiad Pwyllgor Adnoddau (16 Chwefror 2017)

12.1. Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y prif feysydd busnes ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Nid oedd y cofnodion ar gael eto am fod cyfarfod y Pwyllgor a chyfarfod y Bwrdd mor agos i'w gilydd. Roedd y wybodaeth ddiweddaraf fel a ganlyn:

- Cafodd y cynllun, blaenoriaethau gweithredol a'r gyllideb ar gyfer 2017/18 eu hystyried a chawsant eu hadolygu'n drylwyr ac yn faith gan y Pwyllgor
- Adolygwyd y sefyllfa ariannol ar gyfer 2016/17 a chraffwyd arni
- Adolygodd y Pwyllgor bolisiau Adnoddau Dynol am y tro cyntaf, gan ddefnyddio'r awdurdod a ddirprwywyd gan y Bwrdd, a chymeradwyo'r (gyda rhai mân ddiwygiadau) gyfres o bolisiau sy'n ystyriol o deuluoedd

- Roedd cynnal trosolwg o Adnoddau Dynol yn eitem sefydlog ac ystyriwyd agweddau amrywiol ar swyddogaeth Adnoddau Dynol yn y cyfarfod, a oedd i gyd yn gadarnhaol ac yn rhoi sicrwydd
- Darparwyd trosolwg o reoli gwrthdaro buddiannau ar lefel Bwrdd a lefel uwch

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

- I. Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi adroddiad y Pwyllgor fel y'i cyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor - NODWYD

13. Penderfyniadau a wnaethpwyd y tu allan i'r Pwyllgor

- 13.1. Nid oedd unrhyw eitemau i'w codi o ran penderfyniadau a wnaethpwyd y tu allan i'r Pwyllgor.

14. Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf

- 14.1. Cadarnhaodd HB fod y calendr llywodraethu bellach ar waith hyd at fis Gorffennaf 2018 a bod eitemau perthnasol wedi'u cynnwys yn yr agendâu.

15. Unrhyw Fater Arall

- 15.1. Gofynnodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod rannu eu barn ar y ffordd y mae'r Bwrdd wedi ychwanegu gwerth at waith y sefydliad / sefydliadau drwy gydol y diwrnod. Gwnaeth y sawl a oedd yn bresennol rhannu eu sylwadau, roedd enghreifftiau'n cynnwys y drafodaeth am y canlyniadau rheoleiddio ac ansawdd y ddeialog a'r drafodaeth mewn perthynas â chyllid a'r adroddiadau sy'n aeddfedu o hyd a ddarparwyd gan y Bwrdd.
- 15.2. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw fater arall heblaw nodiadau'r cyfarfod caeedig a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2017. Nododd HB fod y gwaith yn mynd rhagddo i roi adolygiad perfformiad blynyddol y Cadeirydd ar waith ac y byddai'n rhoi rhagor o wybodaeth am hyn i aelodau'r Bwrdd maes o law.
- 15.3. Gadawodd PB, JR a KC y cyfarfod.
- 15.4. Gofynnodd y Cadeirydd am unrhyw sylwadau ar nodiadau'r cyfarfod caeedig o'r Bwrdd a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2017. Ac eithrio un newid i'r rhestr o'r rhai a fu'n bresennol, ni wnaed unrhyw newidiadau a chadarnhawyd bod y nodiadau yn gofnod cywir.

Daeth y cyfarfod i ben am 16.10.

Diwedd